# RHYS GOCH GLYNDYFRDWY (fl. c. 1460), bardd yr uchelwyr

**Enw:** Rhys Goch Glyndyfrdwy
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd yr uchelwyr
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** David James Bowen

Fel Guto'r Glyn, canodd yntau gywydd mawl i bum mab Llywelyn ap Hwlcyn o Fôn. Yr oedd cysylltiadau rhwng disgynyddion Llywelyn a theulu Pilstwn, a cheir cywydd marwnad gan Rys Goch i Siôn Pilstwn, aer Emrall. Y mae ei gywydd hiraeth am Rosier ap Siôn o Forgannwg yn ddiddorol am ei fod yn cynnwys cyfeiriad at gywydd Gruffydd Llwyd i yrru'r haul annerch y dalaith. Adlewyrchir anhrefn ei gyfnod mewn cywydd arall a ganodd i feibion Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda a garcharwyd yng nghastell y Drewen gan Risiart Trefor. Canodd hefyd gywyddau gofyn a serch.

## Awdur

**Yr Athro David James Bowen**

## Ffynonellau

Jones a Lewis, *Mynegai i Farddoniaeth y Llawysgrifau* (1928), a'r cyfeiriadau a roir yno

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, viii, 119

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734244

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Bowen, D. J., (1953). RHYS GOCH GLYNDYFRDWY (fl. c. 1460), bardd yr uchelwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RHYS-GLY-1460

Copio i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGELL
THE NATIO
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government